



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Croeso i Gymru:

Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr  
2020 – 2025.

**Crynodeb o'r Sail Dystiolaeth**

## YMWELWYR 2018

€6.3BN  
GWARIANT



## YMWELIADAU RHYNGWLADOL

941,000  
£405M



96 MILIWN  
£4,009 MILIWN

## YMWELIADAU DROS NOS YN Y DU

10.02 MILIWN  
£1,853 MILIWN



64% ar wyliau

25% yn ymweld â ffrindiau/theulu  
8% busnes – 3% arall


## Y DIWYDIANT TWRISTIAETH YNG NGHYMRU

## YMWELIADAU RHYNGWLADOL 2016-18



- IWERDDON – 17%
- FFRANC – 8%
- YR ALMAEN – 8%
- UDA – 8%
- YR ISELDIROEDD – 6%
- AWSTRALIA – 5%
- POLAND – 5%
- SBAEN – 5%
- YR EIDAL – 4%
- CANADA – 3%

## BUSNES



€3,064 MILIWN

YN 2016 \*Cyfraniad twristiaeth at economi Cymru – 6% o'r holl Werth Ychwanegol Gros (GVA) i economi Cymru = €3,064 miliwn yn 2016.

## CYFLOGAETH 2018




9.5%

132,300

O'R HOLL WEITHLU

MEWN GWAITH



O BOBL 16-24  
MLWYDD OED  
ANABL  
ETHNIGRWYDD  
HEB FOD YN WYN

## LLETY

12,000

O SEFYDLIADAU



560,000

O WELYAU

---

# Cynnwys

01. Cyflwyniad	Tudalen 4
02. Perfformiad Strategol	Tudalen 6
03. Perfformiad yr economi ymwelwyr	Tudalen 7
04. Perfformiad brand twristiaeth Cymru	Tudalen 8
05. Y profiad i ymwelwyr	Tudalen 9
06. Tueddiadau a pherfformiad y farchnad ddomestig	Tudalen 10
07. Tueddiadau a pherfformiad y farchnad ryngwladol	Tudalen 14
08. Tueddiadau a pherfformiad twristiaeth fusnes	Tudalen 18
09. Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth	Tudalen 20

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r ddealltwriaeth a'r tueddiadau allweddol sydd wedi llywio **Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-25**. Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad eang o ddata ar yr economi ymwelwyr ers 2012, yn cynnwys tueddiadau o ran ymweliadau, perfformiad y sector twristiaeth ac effeithiau ar yr economi ehangach a llesiant yng Nghymru. Mae dogfennau ar wahân ar gael gyda thystiolaeth fanylach o'r tueddiadau sy'n effeithio ar y **farchnad ddomestig ym Mhrydain Fawr, Marchnadoedd Rhyngwladol a Pherfformiad Strategol yr Economi Ymwelwyr yng Nghymru**. Rhestrir ffynonellau rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y ddogfen.

## Rhennir yr adroddiad yn adrannau fel a ganlyn:

- Perfformiad Strategol
- Yr Economi Ymwelwyr yng Nghymru
- Perfformiad Brand
- Y Profiad i Ymwelwyr
- Tueddiadau a Pherfformiad y Farchnad Ddomestig
- Tueddiadau a Pherfformiad y Farchnad Ryngwladol
- Tueddiadau a Pherfformiad Twristiaeth Fusnes.




# Perfformiad strategol

**Mae'r diwydiant fwy neu lai ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed i dyfu gwariant gan ymwelwyr dros nos 10 y cant erbyn 2020.**

Crëwyd £2.258 biliwn o wariant gan ymwelwyr dros nos a arhosodd yng Nghymru yn 2018, sef cynnydd o £324 miliwn, neu 17%, ers 2012, wedi'i ysgogi gan lefelau tebyg o dwf mewn gwariant gan ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr ac ymwelwyr rhyngwladol â Chymru.

Mae'r cynnydd mewn gwariant gan ymwelwyr wedi ysgogi twf i'r economi ymwelwyr ac i gyflogaeth, ond mae heriau parhaus sy'n gysylltiedig â denu ymwelwyr newydd yn enwedig o dramor, cynyddu adenillion gan ymwelwyr, lledaenu'r twf mewn ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn ac atgyfnerthu brand Cymru.

## Gwariant gan Ymwelwyr yng Nghymru: Targed o gymharu â'r gwariant gwirioneddol yn 2012-2018 Ffynonellau Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr



— Gwariant posibl mewn prisiau presennol er mwyn cyflawni twf o 10% mewn termau real erbyn 2020

### Crynodeb o Berfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Allweddol

Dangosydd	Cynnydd yn erbyn Dangosyddion
<b>Gwariant gan Ymwelwyr (twf o 10%)</b>	Mae'r diwydiant fwy neu lai ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed i dyfu gwariant gan ymwelwyr dros nos 10 y cant erbyn 2020. Mae gwariant ar deithiau dros nos wedi dilyn y patrwm o ran y newid yn nifer y teithiau, ond mae gwariant wedi cynyddu ar raddfa gyflymach.
<b>Cyflogaeth</b>	Twf cryf o ran cyflogaeth ym maes twristiaeth ers 2012. Fodd bynnag, mae enillion wythnosol cyfartalog yn dal i fod yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer yr economi yn gyffredinol yng Nghymru. Mae cyflogaeth rhan amser yn uchel ac yn cynyddu.
<b>Economi Ymwelwyr (Gwerth Ychwanegol Gros)</b>	Mae twristiaeth wedi tyfu'n gryfach na'r economi ar y cyfan (Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol). Fodd bynnag, mae cynhyrchiant (Gwerth Ychwanegol Gros bob awr) yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer economi Cymru. Mae pwysau ar broffidoldeb gyda chostau busnes cynyddol a gwariant cyfyngedig gan dwristiaid.
<b>Denu ymwelwyr newydd</b>	Mae Cymru yn parhau i ddibynnu ar ymweliadau mynych rheolaidd, yn enwedig gan bobl o'r DU. Mae cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr sy'n dod ar wyliau am y tro cyntaf o'r DU a marchnadoedd rhyngwladol. Mae posibilrwydd hefyd i gefnogi grwpiau sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd i fwynhau gwyliau yng Nghymru.
<b>Adenillion cynyddol gan ymwelwyr (gwariant fesul taith)</b>	Mae'r gwariant ar deithiau yn dal i fod islaw cyfartaledd y DU ac nid oedd y rhan fwyaf o ddibenion teithiau wedi gweld twf termau real mewn gwariant fesul taith ers 2012.
<b>Dosbarthiad Tymhorol</b>	Ceir mwy o deithiau yn ystod misoedd yr haf o hyd. Mae llefydd gwag ar gael mewn llety, yn enwedig y tu allan i'r tymor. Ceir tystiolaeth bod marchnata Croeso Cymru yn ysgogi mwy o deithiau yn ystod y misoedd bob ochr i'r misoedd brig.
<b>Cystadleurwydd (cyfran o'r farchnad)</b>	Mae Cymru wedi cael cyfran gynyddol o deithiau a gwariant dros nos ym Mhrydain Fawr ers 2012. Mae'r gyfran o deithiau rhyngwladol yn dal i fod tua 3%, sy'n llawer is na bron bob rhanbarth yn y DU.
<b>Ymwybyddiaeth o'r Frand</b>	Mae Cymru wedi atgyfnerthu ei henw da gyda'i chryfderau twristiaeth craidd. Mae her barhaus i ysgogi ymwybyddiaeth gryfach o frand gyda chynulleidfaoedd ehangach, yn enwedig yn rhyngwladol. Mae'r orddibyniaeth ar y farchnad ddomestig yn risg o hyd.
<b>Boddhad Ymwelwyr</b>	Lefelau uchel o foddhad ymwelwyr a'r tebygolrwydd y byddant yn ymweld â Chymru eto ar bob math o ymweliad.

# Perfformiad yr economi ymwelwyr yng Nghymru

## Yr economi ymwelwyr yw un o'r prif ysgogwyr o ran swyddi, cyfoeth a thwf ledled Cymru.

Mae'r economi ymwelwyr yn gyfrannwr allweddol ac yn ysgogi'r economi yng Nghymru. Caiff mwy na 132,000 o bobl eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr, sef tua 9.5% o'r gweithlu. Yn 2018, creodd £6.3 biliwn o wariant gan ymwelwyr £3 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros i'r economi yng Nghymru. Mae hwn yn gyfraniad o 6% i Werth Ychwanegol Gros economi Cymru.

Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol a gyfrennir gan dwristiaeth wedi tyfu'n llawer cryfach na'r economi ar y cyfan ochr yn ochr â thwf mewn cyflogaeth. Mae'r economi ymwelwyr o fudd i gymunedau ledled Cymru gan gyfrannu at 10 y cant neu fwy o gyflogaeth mewn deg ardal awdurdod lleol a dyma yw'r prif gyflogwr ym mhump o'r rhain.

Mae cyfran uwch o'r gyflogaeth ym maes twristiaeth yn gyflogaeth rhan amser sy'n cyfrif am bron i hanner yr holl gyflogaeth ac mae wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynhyrchiant a chyflogau yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer yr economi yng Nghymru.

O gymharu â'r cyfanswm ar gyfer yr holl ddiwydiannau yng Nghymru, mae cyfran y gyflogaeth ym maes Twristiaeth yn llawer uwch ar gyfer grwpiau o gefndiroedd BAME a phobl ifanc 16-24 oed ac mae ychydig yn uwch ar gyfer pobl sydd ag anabledd.

## Mae darparwyr twristiaeth yn nodi niferoedd cryf o ymwelwyr a rhagolygon cadarnhaol.

Mae Baromedr Twristiaeth Cymru wedi nodi'n gyson bod y mwyafrif o fusnesau wedi nodi lefelau ymwelwyr uwch neu debyg o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nododd bron i 8 allan o 10 busnes lefelau ymwelwyr tebyg neu uwch yn ystod haf 2019. Mae lefelau hyder mewn busnes hefyd wedi parhau'n gadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf.

## Mae costau cynyddol ac amodau marchnad tynnach wedi bod yn rhwystrau i berfformiad busnes, er gwaethaf y lefelau ymwelwyr uwch.

Mae Baromedr Twristiaeth Cymru wedi nodi mai costau cynyddol, yn cynnwys taliadau cyfleustodau uwch a chostau bwyd a diod cynyddol, ynghyd â gwariant cyfyngedig gan ymwelwyr oedd y prif ffactorau a oedd yn rhwystro proffidioldeb a thwf i fusnesau. Mae mwy o gwsmeriaid yn ceisio bargeinion a gostyngiadau a chomisynau uwch sy'n daladwy i safleoedd trefnu gwyliau trydydd parti hefyd wedi rhoi pwysau ar faint refeniw ac elw i lawer o ddarparwyr.

## Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr twristiaeth yn dibynnu ar ymwelwyr o'r DU yn cynnwys trigolion o Gymru.

Fel arfer, mae marchnad Prydain Fawr yn cyfrif am fwy nag 85% o'r ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru, gyda thua chwarter ohonynt o Gymru.

Mae ymwelwyr rhyngwladol ond yn cyfrif am gyfran isel o ymwelwyr i'r rhan fwyaf o fusnesau, llai na 15% fel arfer, gyda'r rhain yn dod yn bennaf o Iwerddon, yr Almaen, gwledydd Ewropeaidd eraill a Gogledd America. Nodwyd yn eang yn y diwydiant bod dibrisiant Sterling yn fuddiol i ddenu ymwelwyr rhyngwladol a domestig.

## Mae llawer o lefydd llety gwag ar gael ym mhob sector llety, yn enwedig y tu allan i dymor prysur yr haf.

Mae Arolwg Deiliadaeth Cymru yn nodi llawer o wahaniaethau mewn cyfraddau deiliadaeth rhwng sectorau ac ardaloedd gwahanol. Mae gan westai yng Nghymru gyfraddau deiliadaeth is o gymharu â gwestai ledled gweddill y DU, gyda deiliadaeth flynyddol ar gyfartaledd o tua 65-67%, tua 6 phwynt canran yn is na'r Alban a 10 pwynt canran yn is na Lloegr. Mae'r cyfraddau deiliadaeth is yn arwain at refeniw is fesul ystafell yng Nghymru. Mae cyfraddau deiliadaeth cyfartalog gwestai yng Nghymru fel arfer islaw 50% rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Mae gan lety Gwely a Brechwast gyfradd deiliadaeth gyfartalog is sef 35-39%. Mae cyfraddau deiliadaeth llety Hunanarlwyo ar gyfradd flynyddol o 55%-60%. Ceir patrwm tymhorol iawn gyda'r ddau fath hwn o lety ac mae llawer o le gwag o hyd yn ystod y tymhorau bob pen i'r brig ac yn y gaeaf. Ceir cyfraddau deiliadaeth cymharol uchel ar gyfer carafannau sefydlog a chartrefi gwyliau, heb lawer o lefydd gwag yn ystod misoedd prysuraf yr haf. I'r gwrthwyneb, ceir llawer o lefydd gwag mewn safleoedd carafannau teithio, gwersylla a hosteli ieuentid drwy gydol yr haf a'r misoedd bob ochr i'r misoedd brig.

## Heriau a Chyfleoedd ar gyfer y dyfodol i'r Economi Ymwelwyr

- Ysgogi twf yn nifer yr ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn er mwyn defnyddio llety gwag yn fwy effeithiol, cynyddu refeniw a phroffidioldeb.
- Cynyddu'r gyfran o gyflogaeth amser llawn yn yr economi ymwelwyr.
- Cynyddu cynhyrchiant er mwyn cynyddu enillion cyfartalog a gwerth ychwanegol gros.
- Annog mwy o wariant gan ymwelwyr a darparwyr twristiaeth er mwyn cefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol.
- Hyrwyddo twristiaeth er mwyn cefnogi adfywio a chyflogaeth ledled Cymru fel rhan o'r Economi Sylfaenol.
- Denu, cadw a datblygu staff hyfedr drwy hyrwyddo gwaith teg, hyfforddiant a llwybrau gyrfa deniadol.

# Perfformiad brand twristiaeth Cymru

Cafwyd cynnydd sylweddol o ran datblygu brand unedig sy'n hyrwyddo Cymru fel lle i fyw, gweithio, astudio a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef. Mae hyn wedi ategu enw da Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r gwaith i olrhain brand marchnad wyliau'r DU yn nodi bod Cymru'n dal i fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o fathau o wyliau. Gwyliau i brofi cefn gwlad ac arfordir hardd, natur a gwylt yr ogystal â gwyliau ymlaciol â ffrindiau a theulu a gysylltir fwyaf â Chymru. Mae gweithgareddau antur hefyd yn cael eu cysylltu'n gryf â gwyliau yng Nghymru, gan adlewyrchu'r buddsoddiad diweddar mewn profiadau cynnyrch newydd ac ymgyrchoedd marchnata brand cysylltiedig.

Y prif reswm dros enw da Cymru yw ei fod yn lle hamddenol a hardd i ymweld ag ef lle ceir diwylliant unigryw a nodedig. Fodd bynnag, mae lleoliadau eraill hefyd yn adnabyddus am y nodweddion hyn, fel yr Alban, Ardal y Llynnoedd a de-orllewin Lloegr.

Nid yw Cymru mor adnabyddus am fod yn gyrchfan gain neu ramantus, sy'n addas ar gyfer pobl ifanc ac sy'n lle i ymweld ag ef drwy gydol y flwyddyn. Nid yw Cymru mor adnabyddus am wyliau, digwyddiadau ac atyniadau celfyddydol a diwylliannol chwaith. Mae'r Alban a Lloegr yn fwy adnabyddus am wyliau treftadaeth na Chymru.

Ceir llai o dystiolaeth o'r canfyddiadau o Gymru ymysg ymwelwyr rhyngwladol. Fodd bynnag, credir bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o Gymru yn wannach o hyd na chyrchfannau mwy sefydledig yn y DU, yn enwedig ymysg marchnadoedd mwy pellennig a phobl nad ydynt wedi teithio i'r DU yn ddiweddar.

Mae cyrchfannau rhanbarthol a lleol penodol yng Nghymru hefyd yn llai adnabyddus na'r prif gyrchfannau twristiaeth mewn rhannau eraill o'r DU. Mae hyn yn bwysig gan ei bod yn debygol y bydd gan ymwelwyr sy'n mynd ar wyliau byr gyrchfan benodol mewn golwg pan fyddant yn penderfynu ble i fynd.

Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016 yn nodi bod y mwyafrif o ymwelwyr yn credu bod Cymru yn gyrchfan twristiaeth gynaliadwy ar gyfer gwyliau a gwyliau byr. Mae'r arolwg hefyd yn nodi bod mwyafrif clir o ymwelwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod eu taith yn cynnig profiad sy'n unigryw i Gymru ac na allent ei gael yn unman arall.

## Heriau a Chyfleoedd ar gyfer y Dyfodol i frand twristiaeth Cymru

- Hyrwyddo cryfderau allweddol Cymru ymhellach fel cyrchfan unigryw a nodedig sy'n cynig amrywiaeth o brofiadau treftadaeth, diwylliant, natur, antur a llesiant.
- Atgyfnerthu agweddau gwannach ar y brand drwy bortreadu Cymru fel lle cyffrous, cyfoes i ymweld ag ef sy'n llawn gwyliau, digwyddiadau a phrofiadau diwylliannol.
- Atgyfnerthu gwerthfawrogiad darpar ymwelwyr o'r cyrchfannau unigryw a deniadol niferus a geir yng Nghymru.
- Hyrwyddo rhesymau cymhellol i ymweld â nhw drwy gydol y flwyddyn.
- Parhau i greu brand cyrchfan cystadleuol drwy fuddsoddi mewn cynhyrchion arloesol sy'n wynebu'r farchnad, gwella'r profiad i ymwelwyr a buddsoddi mewn dulliau hyrwyddo brand cryfach er mwyn targedu cynulleidfaoedd.



# Y profiad i ymwelwyr

## Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru yn nodi lefelau uchel o foddhad ymysg ymwelwyr.

Datgelodd Arolwg Ymwelwyr Cymru yn 2016 lefelau uchel o foddhad gyda'r rhan fwyaf o'r agweddau yn cael sgorau uchel, yn enwedig yr amgylchedd naturiol, lleoedd i ymweld â nhw a'r croeso. Roedd cyfraddau gwannach o ran ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gwerth am arian, siopa, amgylcheddau canol tref, toiledau cyhoeddus a hygrychedd i bobl â namau. (Yn gyffredinol, roedd teithiaun rhagori ar ddisgwyliadau, yn fwy felly i ymwelwyr rhyngwladol, ac roedd lefelau uchel o fwriad i ailymweld a thebygolrwydd o argymell eraill i ymweld. Caiff canfyddiadau arolwg 2019 eu hystyried ymhellach.

## Mae cyfran uchel o ymwelwyr o'r farn ei bod yn bwysig cael profiad nodedig Gymreig.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymwelwyr ei bod yn bwysig cael profiad nodedig Gymreig. Safleoedd, atyniadau a bwyd a diod sydd fwyaf tebygol o gael eu hystyried yn brofiad nodedig Gymreig. Mae llai o ymwelwyr o'r farn bod eu llety yn nodedig Gymreig. Mae tua hanner yr ymwelwr o'r farn ei bod yn bwysig gweld neu glywed y Gymraeg gydag ymwelwyr rhyngwladol yn tueddu i gymryd mwy o ddiddordeb yn yr iaith nag ymwelwyr domestig.

## Mae teithwyr yn benderfynol o wneud dewisiadau teithio cynaliadwy ond ymysg y rhwystrau mae diffyg gwybodaeth am sut i deithio'n gynaliadwy ac argaeledd cynhyrchion cynaliadwy.

Mae tua thri chwarter teithwyr byd-eang o'r farn bod angen i bobl weithredu nawr i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn cynnwys galw am lety eco-gyfeillgar a phryderon cynyddol ynghylch effeithiau amgylcheddol hedfan (1). Fodd bynnag, canfu ymchwil diweddar o farchnad y DU (2) bod bwlch o hyd rhwng bwriadau da a theithwyr yn addasu eu hymddygiad neu'n mynd ati i geisio dewisiadau gwyliau cynaliadwy. Mae hyn yn nodi y gellid perswadio teithwyr i deithio'n fwy cynaliadwy pe byddent yn cael mwy o wybodaeth a phe byddai dewisiadau teithio cynaliadwy yn haws ac yn cael eu hyrwyddo'n well.

## Diddordeb Cryf mewn Teithio sy'n cynnig Profiadau.

Mae ymchwil ddiweddar gan Visit England (3) yn nodi bod lefelau uchel o ddiddordeb ar draws marchnadoedd ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnig profiadau ar wyliau. Mae'r diddordeb hwn wedi'i ddosbarthu ar draws amrywiaeth eang o fathau gwahanol o brofiadau ac mae'r diddordeb yn llawer uwch na'r cyfranogiad, sy'n awgrymu bod cyfleoedd i dyfu. Mae lefelau uwch o ddiddordeb a chyfranogiad mewn profiadau mwy prif ffrwd yn cynnwys blasu/teithiau bwyd a diod, profiadau natur dan arweiniad, profiadau sba a phrofi bywyd y tu ôl i'r llenni. Ceir lefelau is o gyfranogiad mewn dysgu creadigol a dysgu seiliedig ar sgiliau (h.y. cyrsiau coginio, ffotograffiaeth). Diddordeb mwy arbenigol a chyfyngedig a geir mewn profiadau llesol penodol fel dosbarthiadau ioga a myfyrdod, yn ogystal â gwirfoddoli. Mae cyfranogiad a diddordeb mewn teithiau sy'n cynnig profiadau fel arfer yn gryfach ymysg pobl o Brydain Fawr sy'n mynd ar wyliau domestig o'i gymharu ag ymwelwyr rhyngwladol ac mae argaeledd profiadau a gweithgareddau yn ffactor sy'n dylanwadu mwy ar ddewis cyrchfan. Mae ymchwil ddiweddar gan Mintel yn nodi bod mwy na hanner y bobl sy'n mynd ar wyliau domestig wedi cael eu hysbrydoli i ymweld â lle ar ôl ei weld ar raglen deledu neu ffilm (8).

# Tueddiadau a pherfformiad y farchnad ddomestig

## Adferiad yn y farchnad gwyliau yn y DU wedi ysgogi gan deithiau tramor a thwf gwyliau byr domestig.

Gwelwyd y gwariant uchaf erioed sef £69.3 biliwn ar deithiau dros nos gan drigolion o'r DU yn 2018, yn bennaf wedi'i ysgogi gan adferiad cryf mewn teithiau tu allan i'r DU, ond arafodd y twf mewn gwariant yn 2018. Mae nifer y trigolion o Brydain Fawr sy'n mynd ar wyliau wedi cynyddu ers 2012, yn bennaf wedi'i ysgogi gan wyliau tramor a gwyliau byr ym Mhrydain Fawr.

Gwelwyd y nifer uchaf o wyliau gartref gyda 59 miliwn o deithiau yn cael eu cymryd yn 2017, ond gostyngodd hyn yn 2018. Roedd y cynnydd mewn gwyliau domestig yn bennaf oherwydd newid i wyliau byr, sy'n cyfrif am tua dwy ran o dair o wyliau domestig. Mae gwyliau o hyd canolig (4-7 noson) yn cyfrif am tua 30% o wyliau domestig, ond ni welwyd llawer o gynnydd yn y rhain ers 2012. Mae gwariant ar deithiau domestig wedi gostwng mewn termau real. Mae hwn yn bryder i Gymru lle ceir gwariant is fesul taith na Phrydain Fawr yn gyffredinol.


## Cystadleuaeth gref i'r ymwelydd domestig ond mae Cymru wedi gweld cynnydd bach yn ei chyfran o wyliau.

De-orllewin Lloegr yw'r gyrchfan gwyliau fwyaf poblogaidd i drigolion Prydain Fawr sy'n denu un rhan o bump o'r holl wyliau domestig dros nos. Mae gan Gymru, yr Alban, gogledd-orllewin Lloegr a de-ddwyrain Lloegr i gyd gyfran debyg sef tua 10-12% o deithiau gwyliau.

Cafwyd perfformiad cryf o'r farchnad ddomestig ar gyfer Cymru yn 2018, gydag ychydig dros 10 miliwn o deithiau yn cael eu cymryd a gwariant o £1.85 biliwn. Roedd y rhain ychydig yn is na'r lefelau uchaf erioed a welwyd yn 2015, ond yn berfformiad gwell ar ôl dirywiad yn 2016 a 2017.

## Teithiau Dros Nos gan Drigolion o Brydain Fawr â Chymru yn ôl Diben y Daith

Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr



Gwelwyd cynnydd tymor hwy mewn teithiau gwyliau i Gymru gan drigolion o Brydain Fawr ond mae'r lefelau wedi amrywio ers 2012. Yn 2018, gwelwyd y lefelau gwyliau uchaf erioed gyda 6.4 miliwn o deithiau a £1.3 biliwn o wariant ac mae'r twf wedi parhau i mewn i 2019.

### Mae angen mynd i'r afael â thymoroldeb a theithiau byrrach.

haf gyda bron i hanner y teithiau domestig dros nos i Gymru yn digwydd ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst.

Mae'r newid i wyliau byr domestig yn effeithio ar ddibyniaeth flaenorol Cymru ar wyliau hwy. Teithiau byr sy'n para 2 neu 3 noson yw'r hyd mwyaf poblogaidd ar gyfer gwyliau domestig bellach. Mae gwyliau byr (un noson) yn gynyddol boblogaidd ledled Prydain Fawr yn gyffredinol ac maent yn cyfrif am fwy nag 20 y cant o deithiau gwyliau domestig.

### Mae gwyliau glan môr yn perfformio'n gryfach yng Nghymru a gweddill Prydain Fawr.

Mae glannau môr yn denu hanner yr holl ymwelwyr sy'n dod ar wyliau i Gymru a dyma'r prif ffactor a oedd yn gyfrifol am y twf diweddar mewn teithiau i Gymru. Gwyliau mewn dinas oedd y prif ffactor a oedd yn gyfrifol am dwf mewn gwyliau byr domestig ond mae'r twf yng Nghymru wedi bod yn arafach o'i gymharu â gweddill Prydain Fawr. Mae nifer y teithiau gwyliau i ardaloedd cefn gwlad a threfi bach wedi bod yn gostwng.

### Ymlacio, ymweld ag atyniadau a cherdded yw'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd, ond mae llawer o ymwelwyr hefyd yn ymgymryd â chyfuniad o weithgareddau gwahanol.

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yr ymgymeryd â nhw ar deithiau i Gymru yw ymlacio (28%), teithiau cerdded byr (24%), ymweld ag atyniadau ar droed (19%), ymweld â glan môr (25%), teithiau cerdded hirach (15%), teithiau cerdded o ganolfan i ganolfan (12%), ymweld ag atyniadau mewn car (11%) ac ymweld â safleoedd hanesyddol (10%). Mae pobl yn ymgymryd â phob gweithgaredd arall ar lai na 10% o deithiau domestig dros nos, gyda gweithgareddau antur ac awyr agored penodol yn cynnwys beicio, marchogaeth, beicio mynydd, golff a physgota a chwaraeon dŵr yn cyfrif am 3% neu lai o deithiau. Fodd bynnag, mae rhai marchnadoedd a chynhyrchion arbenigol yn cynnig y cyfle i ddenu gwariant uwch ac ymwelwyr am y tro cyntaf yn ogystal ag adeiladu proffil brand amrywiol a deniadol i Gymru.

### Teithio â char yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr domestig yn ei wneud.

Defnyddir y car yn amlach ar gyfer teithiau domestig i Gymru (70%), o gymharu â theithiau yng gweddill Prydain Fawr (65%). Gwneir cyfran is o'r teithiau i Gymru ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda 16% o deithiau ar drên a 4% ar fws.

### Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr â Chymru yn dal i ddefnyddio mathau traddodiadol o lety.

Mae ymwelwyr domestig â Chymru yn fwy tebygol o ddefnyddio llety masnachol o gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol. Defnyddir amrywiaeth o lety yn dibynnu ar ddiwedd y daith. Mae mathau amgen o lety yn cynnwys Airbnb, hosteli, fflatiau a wasanaethir a glampio yn dal i gael eu defnyddio gan leiafrif o ymwelwyr. Fodd bynnag, mae tua un o bobl deg teithiwr yn dweud eu bod yn debygol o ddefnyddio gwasanaeth lletya fel Airbnb, y canfyddir eu bod yn cynnig llety unigryw, hyblyg, cyfleus a fforddiadwy. Mae Airbnb (6) yn nodi mai Cymru oedd y rhanbarth a welodd y cynnydd mwyaf yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018 gyda 13,600 o restrïadau a 467,000 o westeion yn dod yma, yr oedd un rhan o bump ohonynt yn deuluoedd. Fodd bynnag, mae hyn tua un rhan o dair o lefel y defnydd yn yr Alban a de-orllewin Lloegr.


### Ymwelwyr hŷn a theuluoedd yw'r mwyafrif o ymwelwyr sy'n dod ar wyliau i Gymru.

Cafwyd newid amlwg i ymwelwyr hŷn sy'n dod ar wyliau i Gymru ers 2006, gan ddilyn y tueddiad ar gyfer y farchnad wyliau domestig yn gyffredinol. Y prif ffactor sy'n gyfrifol am y twf mewn gwyliau domestig yw ymweliadau gan bobl hŷn y mae eu plant wedi gadael cartref a theuluoedd â phlant.

Mae teuluoedd sy'n dod ar wyliau gyda phlant i Gymru yn llawer mwy tebygol o fod rhwng 35 a 44 oed, yn byw yng ngogledd-orllewin Lloegr, de-orllewin Lloegr neu orllewin canolbarth Lloegr. Maent yn fwy tebygol o fynd ar deithiau i lan y môr a chefn gwlad ym mis Gorffennaf ac Awst, gan aros mewn gwersylloedd gwyliau, carafannau, safleoedd gwerysyla a hosteli. Mae pobl sy'n mynd ar wyliau heb blant yn llawer mwy tebygol o aros mewn llety â gwasanaeth, ymweld â dinasoedd a threfi a theithio y tu allan i'r tymor prysuraf. Ceir diddordeb cynyddol mewn cymryd gwyliau amlgenhedlaeth, yn enwedig ymysg rhieni sydd â phlant bach (4).

## Nifer y gwyliau domestig dros nos a gymerir yng Nghymru yn ôl cam mewn bywyd

Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr



### Llai o deithiau gan ymwelwyr iau ac ymwelwyr oedrannus iawn, gyda llawer ddim yn mynd ar wyliau yn y DU.

Mae oedolion iau a phobl hŷn yng Nghymru yn llai tebygol o fynd ar wyliau domestig. Pobl 16-24 oed sydd leiaf tebygol o fynd ar wyliau domestig. Mae'n bosibl bod y grwpiau hyn leiaf tebygol o fynd ar wyliau am nad oes ganddynt gymaint o ddiddordeb mewn mynd ar wyliau domestig neu fod rhwystrau ariannol neu rwystrau personol eraill yn eu hatal rhag mynd ar deithiau gwyliau.

### Cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr sy'n dod am y tro cyntaf.

Mae gan Gymru set graidd o ymwelwyr gwyliau domestig teyrngar sy'n cynrychioli un rhan o dair o deithwyr actif yn y DU, sy'n lefel debyg i'r Alban.

Mae gan Gymru a rhanbarthau cyfagos gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr lefelau uwch o ymwelwyr teyrngar rheolaidd â Chymru. Mae llai o ymwelwyr rheolaidd yn byw ymhellach i ffwrdd yn y DU, ond mae nifer fawr o bobl sydd â diddordeb mewn ymweld â'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill, sy'n golygu bod cyfle i dyfu'r sylfaen ymwelwyr cyffredinol.

Mae cyfrannau uwch o segmentau Cyplau sy'n Chwilio am Antur a Golygfeydd Trawiadol a Phobl sy'n Chwilio am Antur cyn Magu Teulu sy'n ymwelwyr cyson diweddar â Chymru ond mae lefelau uchel o ddiddordeb mewn ymweld â Chymru ar draws pob segment targed, sy'n dangos cyfle i ddenu ymwelwyr newydd o sail marchnad eang.

Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr gwefan Croeso Cymru sy'n byw yn y DU wedi ymweld â Chymru yn ddiweddar ac mae'r sawl sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru yn fwyaf tebygol o fod yn byw yng Nghymru, yn ymwelwyr rheolaidd neu gyda chysylltiadau personol â Chymru.

### Cyfle i dargedu twf o ranbarthau o fewn cyrraedd hawdd i Gymru ar gyfer gwyliau byr.

Roedd teithiau gwyliau a gymerir yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o gael eu cymryd gan drigolion sy'n byw yng Nghymru a rhanbarthau cyfagos gorllewin canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr. Mae lefelau llawer is o wyliau a gymerir yng Nghymru gan drigolion sy'n byw yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr. Fodd bynnag, mae teithiau o'r ardaloedd hyn wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer o gyfle ar gyfer twf o'r ardaloedd hyn o hyd.

### Cyfle i dargedu ymwelwyr sy'n gwario mwy ond hefyd i gynyddu cyfranogiad gan grwpiau incwm isel.

Mae twf o ran gwyliau domestig wedi cael ei ysgogi gan gynydd yn nifer y teithiau o grwpiau economaidd-gymdeithasol A a B, gyda phobl yng ngrŵp B yn cyfrif am un o bob tri o'r holl wyliau domestig. Mae grwpiau C1C2 yng nghanol y farchnad yn dal i fod yn rhan graidd o'r farchnad wyliau ddomestig gan gyfrif am bron i hanner o'r holl wyliau domestig. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn y gwyliau domestig ymhlith y grwpiau hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o bosibl am eu bod yn cymryd gwyliau dramor. Mae teithiau o grwpiau economaidd-gymdeithasol DE ond yn cyfrif am gyfran fach o'r bobl sy'n mynd ar wyliau domestig ac mae nifer y teithiau wedi gostwng dros yr hirdymor, a all fod yn dangos prinder arian o bosibl.

### Mae Teithwyr â Namau yn Farchnad Bwysig sy'n Debygol o Gynyddu Oherwydd y Boblogaeth sy'n Heneiddio.

Mae tua un o bob pedwar ymweliad dros nos a thaith ddydd twristiaeth a wneir yng Nghymru gan drigolion o Brydain Fawr yn cynnwys rhywun yn y parti sydd â nam, sydd ychydig yn uwch na'r lefel ar gyfer Prydain Fawr. Mae cyfran y teithiau dros nos gyda pherson â nam yn llawer uwch ar deithiau a gymerir gan bobl hŷn. Mae tua 10% o'r teithiau a gymerir gan bobl yng Nghymru yn cynnwys rhywun â nam symudedd neu gyflwr iechyd hirdymor, mae 6% yn cynnwys rhywun sydd â nam ar ei glyw ac mae 2% yn cynnwys rhywun â nam ar ei olwg. Mae ymchwil yn dangos mai nifer bach o bobl sy'n mynd ar wyliau yn y DU sydd â dementia (2). Bydd gan gyfran is (1.7%) o ymwelwyr rhyngwladol nam a chymerwyd 711,000 o deithiau i'r DU yn 2018 gan bobl sydd â nam neu a oedd yn teithio mewn grŵp lle roedd gan un o'r aelodau nam. Fodd bynnag, mae nifer yr ymwelwyr a'r gwariant gan deithwyr sy'n dod i mewn sydd â nam wedi bod yn tyfu dros yr wyth mlynedd diwethaf. (7)

### Mae gwyliau domestig yn dal i gael eu trefnu'n uniongyrchol gyda darparwyr llety yn bennaf ond mae cyfryngwyr ar-lein yn mynd â chyfran gynyddol.

Caiff tua un o bob tri gwyliau domestig ei drefnu'n uniongyrchol â'r darparwr llety, ac mae tua chwarter yn defnyddio gwefannau teithio fel Expedia a Booking.com. Mae tua 10 y cant yn defnyddio gweithredwyr teithiau ac mae cyfran debyg yn trefnu drwy asiant teithio.

### Mae'r duedd tuag at drefniadau byrdymor yn parhau.

Caiff mwy na hanner y teithiau domestig dros nos eu trefnu fwy na mis cyn dyddiad y daith, gydag un rhan o bob pump yn cael eu trefnu yn ystod yr wythnos cyn teithio. Caiff gwyliau hirach eu trefnu ymhellach ymlaen llaw o gymharu â gwyliau byrrach. O ystyried y patrwm presennol o deithiau gwyliau a gymerir yng Nghymru, caiff y lefel fwyaf o drefniadau eu gwneud ar ddiwedd y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf gyda ffenestr lai ar gyfer trefniadau ar ddechrau'r flwyddyn a llif cyson o drefniadau'n cael eu gwneud drwy gydol y gwanwyn. Mae'n debygol y bydd cyfnod trefnu byr ar gyfer gwyliau yn yr hydref yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref.

### Heriau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol i'r farchnad wyliau ddomestig.

- Twf ansicr yn y farchnad wyliau ddomestig yn dibynnu ar y sefyllfa economaidd a chyfyngiadau teithio allan o Gymru yn y dyfodol.
- Mae gwyliau byrrach yn creu gwariant is a gallant gyfyngu ar y posibilrwydd o dargedu marchnadoedd sy'n cynnwys teithiau hirach i Gymru.
- Gall y duedd i gael gwyliau amlach, ar hap, fod yn fwy dibynnol ar y tywydd a chael eu disodli gan deithiau dydd.
- Ymestyn dosbarthiad tymhorol gwyliau a theithiau eraill a gymerir yng Nghymru.
- Codi proffil cyrchfannau trefol yng Nghymru yn cynnwys trefi treftadaeth a threfi marchnad, cyrchfannau diwylliannol a gwyliau mewn dinasoedd yng Nghaerdydd a chanolfannau trefol yng Nghymru.
- Denu ymwelwyr newydd iau ynghyd â pharhau i ddenu'r farchnad deuluol graidd a'r farchnad pobl hŷn y mae eu plant wedi gadael gartref.
- Targedu'r marchnadoedd cynyddol yn ne-ddwyrain Lloegr (yn cynnwys Llundain) a chanolbarth Lloegr, ynghyd â chadw'r marchnadoedd mwy yng ngogledd-orllewin Lloegr a Chymru.
- Cyfleoedd i ddenu ymwelwyr mwy cefnog ac ymwelwr o ganol y farchnad, ynghyd â chynyddu cyfranogiad gan grwpiau sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd a grwpiau dan anfantais.
- Diwallu anghenion y nifer cynyddol o ymwelwyr hŷn, y mae gan lawer ohonynt namau neu y maent yn rheoli cyflyrau iechyd hirdymor.
- Hyrwyddo defnydd gwell o drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig i gyrchfannau mwy gyda chysylltiadau da i farchnadoedd trefol allanol.
- Targedu marchnata ar ddenu diddordeb gan ymwelwyr newydd ac ymwelwyr sydd wedi cilio er mwyn denu teithiau rheolaidd gan ymwelwyr gydol oes.
- Mae'r economi rhannu yn darparu mwy o leoedd gwag mewn llety a all effeithio ar gyfrannau deiliadaeth darparwyr masnachol traddodiadol oni chaiff mwy o alw ei greu.

# Tueddiadau a pherfformiad y farchnad ryngwladol

## **Twf cryf mewn ymwelwyr rhyngwladol â'r DU, ond arafodd y twf yn 2018 a 2019.**

Cafwyd twf cryf yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol â'r DU, gan gyrraedd y lefelau uchaf erioed o deithiau a gwariant yn 2017. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y teithiau a'r gwariant yn 2018, gyda 38 miliwn o deithiau a gwariant o £22.9 biliwn. Gwelwyd cynnydd yn nifer y teithiau yn ystod 7 mis cyntaf 2019.

Cafwyd twf tymor hwy mewn teithiau i mewn i'r DU ym mhob un o brif ddibenion. Mae teithiau gwyliau wedi tyfu ar gyfradd gyfartalog o 4 y cant y flwyddyn ers 2012, gan gyrraedd lefel o fwy na 15 miliwn o deithiau yn 2017 a 2018.

Tyfodd ymweliadau i mewn i'r DU er mwyn ymweld â ffrindiau a pherthnasau 5% y flwyddyn ar gyfartaledd ers 2012 gan gyrraedd y nifer uchaf erioed sef 12 miliwn o deithiau yn 2017. Fodd bynnag, mae nifer y teithiau a gwariant wedi gostwng yn 2018 a 2019. Cafwyd twf arafach mewn ymweliadau busnes i mewn i'r DU sef 2% y flwyddyn ers 2012, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed, sef 9.2m o deithiau yn 2016, ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny.

## **Twf yn y rhan fwyaf o'r deg marchnad uchaf sy'n creu ymwelwyr rhyngwladol i'r DU.**

Mae'r deg marchnad uchaf wedi bod yn debyg dros y tymor hwy ac yn cyfrif am 63% o gyfanswm y teithiau a 51% o gyfanswm y gwariant i'r DU. Mae'r rhan fwyaf o farchnadoedd wedi bod yn tyfu ond cafwyd gostyngiad yn nifer yr ymweliadau yn 2018. Gwelwyd y twf mwyaf o'r UD, Sbaen, yr Eidal, Gwlad Pwyl ac Iwerddon.

Yr Unol Daleithiau yw'r farchnad wyliau i mewn i'r DU fwyaf gwerthfawr o bell ffordd (£1.6 biliwn), yna yr Almaen (£815 miliwn), Ffrainc (£718 miliwn), Sbaen (£498 miliwn) ac Awstralia (£488 miliwn). Yr Unol Daleithiau, Sbaen ac Iwerddon fu'r marchnadoedd gwyliau i mewn a dyfodd gyflymaf o'r deg marchnad uchaf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Y deg marchnad uchaf i mewn i'r DU wedi'u sgorio yn ôl nifer y teithiau yn 2018: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol**

	Teithiau yn 2018 (miloedd)	Gwariant yn 2018 (£miliynau)	Gwariant fesul taith	Cyfradd twf ers 2012 Cyfartaledd fesul taith
Ffrainc	3,693	£1,386	£375	-0.4%
Yr UD	3,877	£3,378	£871	5.3%
Yr Almaen	3,262	£1,520	£466	1.6%
Iwerddon	2,782	£895	£322	2.1%
Sbaen	2,530	£1,110	£439	6.7%
Yr Iseldiroedd	1,954	£716	£366	2.0%
Gwlad Pwyl	1,817	£453	£249	6.8%
Yr Eidal	1,808	£784	£434	2.9%
Gwlad Belg	1,116	£399	£358	0%
Awstralia	1,003	£1,044	£1,041	0.2%

**Llundain yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd yn y DU ar draws yr holl farchnadoedd rhyngwladol.**

Mae Llundain yn denu tua 19 miliwn o ymwelwyr rhyngwladol â'r DU o gymharu â 15 miliwn â gweddill Lloegr, 3.5 miliwn â'r Alban ac un filiwn â Chymru.

Mae'r Alban yn gyrchfan bwysig i bob marchnad, ond mae'n denu nifer arbennig o uchel o ymwelwyr o'r UD, Canada, Awstralia a'r Almaen. Mae de-orllewin Lloegr yn boblogaidd ymysg ymwelwyr o'r Almaen, Ffrainc, yr UD a'r Iseldiroedd

**Teithiau Rhyngwladol i Gymru a chyrchfannau eraill yn y DU: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol Holl ddibenion teithiau yn 2018**

Cyrchfan/Marchnad	Yr Almaen	Yr UD	Ffrainc	Yr Iseldiroedd	Iwerddon	Awstralia	Canada
Y DU	3,260,000	3,880,000	3,690,000	1,950,000	2,780,000	1,000,000	850,000
Llundain	1,450,000	2,630,000	1,830,000	695,000	650,000	588,000	474,000
Yr Alban	451,000	492,000	318,000	172,000	84,000	172,000	131,000
<b>Cymru</b>	<b>87,000</b>	<b>86,000</b>	<b>71,000</b>	<b>56,000</b>	<b>151,000</b>	<b>44,000</b>	<b>36,000</b>
De-orllewin Lloegr	327,000	236,000	207,000	191,000	165,000	120,000	77,000
Gogledd-orllewin Lloegr	214,000	249,000	169,000	125,000	358,000	120,000	55,000
Swydd Efrog	105,000	103,000	100,000	95,000	95,000	69,000	37,000

**Llundain a'r Alban yn arwain y twf mewn ymwelwyr gwyliau rhyngwladol sy'n ymweld â'r DU.**


Mae Llundain yn denu 9.5 miliwn o deithiau gwyliau tua dwy ran o dair o'r holl ymwelwyr gwyliau rhyngwladol sy'n ymweld â'r DU. Mae'r Alban yn denu 13 y cant o ymwelwyr gwyliau i mewn i'r DU, de-ddwyrain Lloegr (10%), de-orllewin Lloegr (7%) a gogledd-orllewin Lloegr (7%).

**Twf diweddar yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru, ond mae cyfran Cymru wedi gostwng.**

Dychwelodd y teithiau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol i uwchlaw un filiwn mewn blynyddoedd diweddar ond gostyngodd y teithiau yn 2018, gan ddilyn yr un patrwm ledled y DU yn gyffredinol. Mae ymwelwyr rhyngwladol yn cyfrif am tua 10 y cant o'r ymwelwyr dros nos â Chymru ond 20 y cant o'r gwariant am eu bod yn gwario mwy. Mae'r gwariant cyfartalog fesul taith yn fwy na dwbl lefel yr ymwelwyr domestig o Brydain Fawr.

## Nifer y teithiau a'r gwariant ar ymweliadau rhyngwladol â Chymru

Arolwg Teithwyr Rhyngwladol



Mae'r twf mewn teithiau i Gymru wedi bod yn arafach na ledled y DU yn gyffredinol ac mae cyfran Cymru o deithiau i mewn i Gymru (2.5%) a gwariant (1.8%) wedi gostwng rywfaint dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Cafwyd 403,000 o deithiau gwyliau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol yn 2018 gyda chyfradd twf gyfartalog o 3.6% y flwyddyn ers 2012, yn unol â thwf ledled y DU yn gyffredinol. Mae hyn yn cymharu â 341,000 o ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau a 147,000 o deithiau busnes a gymerwyd yng Nghymru yn 2018, sydd wedi tyfu ar gyfradd arafach na theithiau gwyliau.

### Marchnadoedd yr UE gerllaw a marchnadoedd pellter hir Saesneg eu hiaith sy'n creu'r nifer fwyaf o ymweliadau â Chymru, yn yr un modd â'r DU gyfan.

Iwerddon sy'n creu'r nifer fwyaf o ymweliadau â Chymru, yna yr Almaen, yr UD a Ffrainc. Mae'r gwariant o'r holl farchnadoedd hyn yn tua £30-40 miliwn y flwyddyn. Prif ffynhonnell ymwelwyr gwyliau/gwariant i Gymru yw Iwerddon (70,000/£15m), yr Almaen (50,000/£17m), yr UD (50,000/£22m), Ffrainc (33,000/£11m) a'r Iseldiroedd (31,000/£11m). Mae ymwelwyr o'r Almaen a'r Unol Daleithiau wedi arwain y ffordd o ran twf teithiau gwyliau a gymerir yng Nghymru. Mae gwyliau i Gymru o Ffrainc, Iwerddon a'r Iseldiroedd ar ei hôl hi o gymharu â'r DU yn gyffredinol.

### Mae ymweld ag atyniadau, treftadaeth a mwynhau natur a golygfeydd yn ffactorau ysgogi cyffredin.

Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o ymwelwyr gwyliau rhyngwladol yn dod i'r DU er mwyn profi bywyd dinesig ac archwilio treftadaeth a hanes. Y tu allan i Lundain, mae diddordeb mewn trefi a dinasoedd hanesyddol Prydeinig, yn ogystal ag ardaloedd cefn gwlad ac arfordirol ym Mhrydain. Mae gan bobl hyn, ymwelwyr sy'n dod dro ar ôl tro a gwledydd Saesneg eu hiaith fwy o ddiddordeb mewn ymweld â chefn gwlad y DU, sy'n cynnig cyfle da i dargedu'r grwpiau hyn i ymweld â Chymru. Mwynhau'r dirwedd a'r dreftadaeth yw'r prif ffactorau sy'n ysgogi teithwyr rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu awyr agored yn un o'r rhesymau dros ymweld â Chymru i un o bob pum teithiwr rhyngwladol, sy'n uwch nag ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae gan weithgareddau penodol fel chwarae golff, gweithgareddau antur, chwaraeon dŵr a chwaraeon cystadleuol apêl mwy arbenigol.

### Cyfle i dyfu Caerdydd fel porth i deithwyr rhyngwladol ochr yn ochr â chanolfannau treftadaeth.

Mae ymweld ar gyfer gwyliau dinesig neu drefol yn rheswm llai cyffredin dros ymweld â Chymru. Mae tua un o bob tri ymwelydd rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru yn aros yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 60 y cant o ymwelwyr rhyngwladol â'r Alban sy'n aros yng Nghaeredin a 50 y cant o ymwelwyr â'r DU sy'n aros yn Llundain. Mae hyn yn dangos cyfle i hyrwyddo Caerdydd fel porth i Gymru ynghyd â chysylltiadau awyr gwell drwy faes awyr Caerdydd. Mae gorgyffwrdd o ran diddordeb rhwng archwilio treftadaeth, cefn gwlad ac ardaloedd gwledig pellennig. Mae hyn yn awgrymu y gellir hyrwyddo trefi hanesyddol Cymru fel canolfan ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol sy'n archwilio'r ardaloedd cefn gwlad cyfagos.

### Hyrwyddo Cymru fel lle i archwilio treftadaeth, diwylliant, yr awyr agored.

Ceir cyfleoedd i Gymru dargedu diddordeb Almaenwyr yn yr awyr agored ac mewn hanes, yn ogystal â chariad teithwyr at wersylla, rhyddid a'r awyr agored. Mae diwylliant a bywyd a diod nodedig Cymru yn debygol o ddenu mwy o ddiddordeb yn Ffrainc, Sbaen a'r Eidal. Mae gan Gymru arlwy cryf ar gyfer teithwyr mwy annibynnol o'r UD ac Awstralia sy'n awyddus i archwilio lleoedd hardd, treftadaeth a diwylliant.

Mae'r mwyafrif o ymwelwyr gwyliau rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru yn dod ar gyfer eu prif wyliau gyda chyfrannau llai yn ymweld ar wyliau byrrach neu ail wyliau. Mae'r mwyafrif yn cyfuno taith i Gymru â rhannau eraill o'r DU, gyda thua hanner yn aros yn Lloegr a thua un o bob deg yn aros yn yr Alban neu Iwerddon.

### Cyfle i ddenu teithwyr sy'n ymweld â'r DU dro ar ôl tro.

Mae tri chwarter yr ymwelwyr sy'n dod i Gymru ar wyliau yn ymweld â'r DU dro ar ôl tro, sef y gyfran uchaf ledled y DU yn gyffredinol. Mae ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro yn rhan bwysig iawn o'r farchnad teithio i mewn. Mae'r marchnadoedd Ewropaidd cyfagos yn fwy tebygol o fod yn ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro; Gweriniaeth Iwerddon (92%), yr Iseldiroedd (76%), Sbaen (62%), yr Almaen (62%), yr Eidal (59%) a Ffrainc (58%). Mae tua 60 y cant o deithwyr o'r UD, Canada ac Awstralia yn debygol o fod yn deithwyr sy'n ymweld â'r DU dro ar ôl tro.



### **Cyfle mawr i dargedu teithwyr annibynnol, cefnog o farchnadoedd cyfagos ar gyfer gwyliau byr a chanolig eu hyd.**

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru yn gefnog, yn ganol oed ac yn bobl hŷn sy'n teithio fel cwpwl neu fel teulu. Pobl iau sy'n cyfrif am tua chwarter yr ymwelwyr â Chymru. Mae'r mwyafrif yn defnyddio car i ddod i Gymru ac mae tua un o bob pump wedi defnyddio trafniadaeth gyhoeddus. Gwyliau byr a gwyliau canolig (4-7 noson) sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o deithiau gwyliau i mewn i'r DU.

### **Pwysigrwydd cynnyrch sy'n hawdd ei drefnu ar-lein ar gyfer teithwyr rhyngwladol.**

Mae bron i naw o bob deg o ymwelwyr rhyngwladol sy'n teithio i'r DU yn gwneud trefniadau teithio annibynnol ac mae hyn wed bod yn tyfu. Caiff asiantau teithio ar-lein eu defnyddio'n eang er cyfleustra, am y dewis maent yn ei gynnig a'u gallu i gymharu prisiau. Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru (2016) yn nodi bod hanner yr ymwelwyr rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru yn trefnu eu llety yn uniongyrchol â'r darparwr. Gwnaeth un rhan o dair arall drefniadau drwy safle trefnu gwyliau ar-lein, a dim ond deg y cant a wnaeth drefniadau drwy asiant teithio neu weithredwr teithiau. Mae bron i 30 y cant o ymwelwyr â'r DU yn prynu tocynnau teithiau, digwyddiadau ac atyniadau cyn teithio.

### **Atgyfnerthu cysylltiadau teithio awyr a môr sy'n bwysig ar gyfer twf.**

Y prif feysydd awyr sy'n cael eu defnyddio gan ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Nghymru yw: Heathrow (17%), Bryste (11%), Caerdydd (9%), Manceinion (8%), Gatwick (5%) a Birmingham (4%). Mae ymwelwyr â Chymru hefyd yn defnyddio'r llwybrau teithio ar y môr o Iwerddon ac o Ewrop i Ddofr yn ogystal â Thwnel y Sianel.

### **Mae dylanwadau ar brosesau cynllunio teithiau yn debyg ym marchnad ddomestig y DU, ond mae'r amserlen yn hwy ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol.**

Mae teithwyr o farchnadoedd teithiau hir, yn enwedig Awstralia a Seland Newydd, yn fwy tebygol o gynllunio a threfnu eu teithiau ymhellach ymlaen llaw, ac mae marchnadoedd teithiau byr fel Ffrainc, Sbaen a'r Iseldiroedd yn fwy tebygol o drefnu teithiau o fewn 2 fis i'w taith. Mae'r Almaen yn eithriad gyda theithwyr yn tueddu i wneud trefniadau yn llawer cynharach, gyda mwy na hanner yn gwneud trefniadau o leiaf 3 mis cyn teithio. Argymhellion ar lafar gwlad a sianeli ar-lein yw'r prif ddylanwadau ar deithwyr rhyngwladol yn yr un modd â theithwyr domestig.

### **Mae angen i fwy o deithwyr sy'n dod i mewn i'r DU gael eu darbwyllo i ymweld â Chymru er mwyn sicrhau twf yn y dyfodol.**

Mae twristiaeth ryngwladol wedi datblygu ar gyfradd gyflymach na'r economi fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf gyda thwf parhaus yn y nifer sy'n ymweld ac enillion yn cynnwys galw cryf o Ewrop a'r prif farchnadoedd. Mae'r rhagolygon am ragor o dwf mewn teithio rhyngwladol a domestig yn gryf. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y teithwyr rhyngwladol sy'n ymweld â'r DU ers 2018 yn dangos na ellir cymryd twf yn ganiataol a'i fod yn agored i amodau marchnad newidiol. Mae VisitBritain yn rhagweld y ceir y twf unwaith eto yn 2019. Fodd bynnag, gallai unrhyw newidiadau i drefniadau teithio yn y dyfodol rhwng y DU a marchnadoedd allweddol eraill yn yr UE ac yn rhyngwladol gael effaith fawr ar arferion teithio ar gyfer gwyliau, busnes ac er mwyn ymweld â ffrindiau a theulu yn y tymor byr i ganolig.

Mae'r prosesau diweddaraf i olrhain y farchnad gan Visit Britain (5) yn dangos bod mwy o ansicrwydd ymysg darpar deithwyr mewn perthynas â threfniadau teithio i ddod i'r DU a gostyngiad mewn bwriad i ymweld â'r DU. Mae'r gyfradd gyfnewid is ar gyfer y Sterling wedi golygu bod y DU yn fwy fforddiadwy ond mae newidiadau yn y dyfodol yn debygol o effeithio ar alw gan ymwelwyr a'r hyn maent yn ei wario.

### **Heriau a chyfleoedd allweddol ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol**

- Mae targedu ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro o farchnadoedd allweddol yn gyfle mawr am eu bod yn gwario llawer o arian, maent yn fwy tebygol o archwilio y tu hwnt i Lundain ac ymweld drwy gydol y flwyddyn.
- Gallai hyrwyddo ymweliad â Chymru fel taith ychwanegol neu amgen â rhannau eraill o'r DU gynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Dylid manteisio ar gynhyrchion y gellir eu pecynnu a'u trefnu'n hawdd cyn teithio ac yn ystod y daith.
- Gallai mwy o gysylltiadau awyr uniongyrchol i Gaerdydd o farchnadoedd allweddol helpu i ddenu mwy o ymwelwyr rhyngwladol i Gymru.
- Mae twf ymysg ymwelwyr rhyngwladol sy'n ymweld â'r DU wedi arafu a gellid canolbwyntio ar ddarbwyllo mwy o deithwyr sy'n ymweld â'r DU i ddod i Gymru.

# Tueddiadau a pherfformiad mewn twristiaeth fusnes

## Cafwyd gostyngiad diweddar yn nifer y teithiau busnes domestig a rhyngwladol.

Mae nifer y teithiau busnes domestig dros nos ym Mhrydain Fawr wedi amrywio ond mae lefelau teithiau dros y 3 blynedd diwethaf tua 15 y cant yn is na'u lefelau uchaf gyda 16.3 miliwn o deithiau yn 2018. Mae gwariant wedi bod yn gostwng mewn termau real gyda £4.37 biliwn yn cael ei wario yn 2018.

Mae Cymru wedi dilyn tuedd tebyg i Brydain Fawr yn gyffredinol gydag amrywiadau yn nifer y teithiau busnes ond mae nifer y teithiau wedi bod yn gostwng ers iddynt gyrraedd mwy nag un miliwn, sef y nifer uchaf erioed yn 2012 i gyfartaledd o 750,000 yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Mae gwariant wedi bod yn gostwng ar gyfradd gyflymach na theithiau. Cyfran Cymru o ymweliadau busnes domestig dros nos o Brydain Fawr yw tua 4.5 y cant o'r teithiau a 3.5 y cant o'r gwariant.

## Mae'r gwariant bob nos ar ymweliadau busnes yn uwch na gwariant ymweliadau dibenion eraill.

Mae'r daith fusnes dros nos gyfartalog yng Nghymru yn para 2.4 noson gyda gwariant cyfartalog fesul noson o £81. Mae'r gwariant cyfartalog fesul noson yn uwch na theithiau gwyliau, ond mae'r ffaith bod teithiau gwyliau yn para'n hwy yn arwain at wariant cyffredinol uwch fesul taith ar gyfer gwyliau sef £213 o gymharu â £190 ar gyfer teithiau busnes.

## Mae'r proffil ymwelwyr busnes yn wahanol i ymwelwyr gwyliau sy'n ymweld â Chymru.

Mae mwyafrif yr ymwelwyr busnes yn defnyddio llety masnachol, sef gwestai, motelau a gwestai bach fel arfer. Mae cyfran uwch (50%) yn aros mewn trefi neu ddinasoedd mawr yng Nghymru. Caiff teithiau eu dosbarthu'n llawer mwy cyfartal ledled y flwyddyn, a Gorffennaf ac Awst yw'r misoedd lleiaf poblogaidd. Mae'r mwyafrif o ymwelwyr yn ddynion (80%), mewn gwaith llawn amser, rhwng 25 a 44 oed, o grwpiau economaidd-gymdeithasol BC1 ac o Gymru neu ogledd-orllewin Lloegr, de-ddwyrain Lloegr a chanolbarth Lloegr.

## Mae llawer llai o ymwelwyr busnes rhyngwladol yn dod i Gymru, ond maent yn aros yn hwy ac yn gwario mwy o arian o'i gymharu ag ymwelwyr busnes domestig.

Cafwyd cyfartaledd blynyddol o 166,000 o ymwelwyr busnes rhyngwladol â Chymru yn ystod y 3 blynedd diwethaf, gyda gwariant cyfartalog blynyddol o £50 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli tua 16 y cant o deithiau rhyngwladol i Gymru a 12 y cant o'r gwariant. Mae ymwelwyr busnes rhyngwladol yn aros yn hwy nag ymwelwyr busnes domestig gyda chyfartaledd o 4.6 o nosweithiau ac mae gwariant cyfartalog teithiau, sef £373 bron yn ddwbl gwariant ymwelwyr busnes domestig.

## Heriau a chyfleoedd allweddol ar gyfer y Farchnad Deithio Busnes

- Mae ymwelwyr busnes yn gwario mwy o arian fesul noson ac ymweliad drwy gydol y flwyddyn ac felly gall hyrwyddo mwy o ymweliadau gefnogi arenillion a dosbarthiad tymhorol uwch gan ymwelwyr.
- Cyfle i wneud y gorau o fuddsoddiadau (hyrwyddo a seilwaith) a wneir yn y Sector Teithio Busnes yng Nghymru.
- Mae cyfarfodydd, cynadleddau ac arddangosiadau yn ffocws allweddol ar gyfer twf o ystyried y gwariant uwch sy'n bosibl a'r gostyngiad yn nifer yr ymweliadau busnes rheolaidd.



# Cyfeiriadau a rhagor o wybodaeth

## 1. Booking.com: Sustainable Travel Report

[globalnews.booking.com/bookingcom-reveals-key-findings-from-its-2019-sustainable-travel-report/](https://globalnews.booking.com/bookingcom-reveals-key-findings-from-its-2019-sustainable-travel-report/)

## 2. BDRC Travel Trends Report 2019

[www.bva-bdrc.com/projects/holiday-trends-2019/](http://www.bva-bdrc.com/projects/holiday-trends-2019/)

## 3. Visit England: Research on Experiential Activities 2019

[www.visitbritain.org/experiential-activity-research](http://www.visitbritain.org/experiential-activity-research)

## 4. Mintel UK Holiday Review 2019/Mintel Domestic Tourism UK 2018.

[www.mintel.com/](http://www.mintel.com/)

## 5. Visit Britain Inbound Consumer Sentiment Research (October 2019)

[www.visitbritain.com/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/consumer\\_sentiment\\_research\\_for\\_website.pdf](http://www.visitbritain.com/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/consumer_sentiment_research_for_website.pdf)

## 6. Airbnb UK Insights Report 2018

[www.airbnb.com/citizen/wp-content/uploads/2018/10/AirbnbUKInsightsReport\\_2018.pdf](http://www.airbnb.com/citizen/wp-content/uploads/2018/10/AirbnbUKInsightsReport_2018.pdf)

## 7. Inbound Visitors to the UK with a health condition or impairment 2019

[www.visitbritain.org/research-inbound-visitors-health-condition-or-impairment?utm\\_source=VB\\_Only\\_Enews\\_30\\_10\\_19&utm\\_medium=Email&utm\\_campaign=VB\\_Only\\_30\\_10\\_19](http://www.visitbritain.org/research-inbound-visitors-health-condition-or-impairment?utm_source=VB_Only_Enews_30_10_19&utm_medium=Email&utm_campaign=VB_Only_30_10_19)

## 8. Mintel Holiday Planning and booking process 2018

[reports.mintel.com/homepages/guest/](http://reports.mintel.com/homepages/guest/)

## Rhagor o Wybodaeth

### Detailed Trends GB Domestic Holiday Market

Dogfen fewnol, Saesneg yn unig – ar gael yn y Gymraeg ar gais.

### Detailed Trends International Markets

Dogfen fewnol, Saesneg yn unig – ar gael yn y Gymraeg ar gais.

### Strategic Performance of the Visitor Economy in Wales

Dogfen fewnol, Saesneg yn unig – ar gael yn y Gymraeg ar gais.

### Adroddiadau Perfformiad Cymru

Y data chwarterol diweddaraf o'r prif arolygon twristiaeth. [llyw.cymru/perfformiad-twristiaeth-cymru-0?\\_ga=2.131392842.490322027.1579174139-523169439.1577089006](http://llyw.cymru/perfformiad-twristiaeth-cymru-0?_ga=2.131392842.490322027.1579174139-523169439.1577089006)

### Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

Arolwg cenedlaethol yn mesur nifer a gwerth y teithiau dros nos a wneir gan drigolion Prydain Fawr. [llyw.cymru/arolwg-twristiaeth-prydain-fawr?\\_ga=2.170524901.490322027.1579174139-523169439.1577089006](http://llyw.cymru/arolwg-twristiaeth-prydain-fawr?_ga=2.170524901.490322027.1579174139-523169439.1577089006)

### Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr

Dyma'r ffynhonnell o ystadegau swyddogol ar ymweliadau undydd gan drigolion Prydain â chyrchfannau ledled Prydain. [llyw.cymru/arolwg-ymweliadau-undydd-prydain-fawr?\\_ga=2.176267360.490322027.1579174139-523169439.1577089006](http://llyw.cymru/arolwg-ymweliadau-undydd-prydain-fawr?_ga=2.176267360.490322027.1579174139-523169439.1577089006)

### Arolygon Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru

Mae'r arolygon deiliadaeth yn rhoi gwybodaeth am dueddiadau'r galw am lety twristiaeth yng Nghymru. [llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru?\\_ga=2.64087402.490322027.1579174139-523169439.1577089006](http://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru?_ga=2.64087402.490322027.1579174139-523169439.1577089006)

### Adroddiad Baromedr Twristiaeth Cymru

Mae'r Baromedr Twristiaeth yn rhoi cipolwg ar berfformiad y diwydiant ar ôl digwyddiadau pwysig yn y calendr twristiaeth. [llyw.cymru/baromedr-twristiaeth?\\_ga=2.75629776.490322027.1579174139-523169439.1577089006](http://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth?_ga=2.75629776.490322027.1579174139-523169439.1577089006)

### Visit Britain

Gwybodaeth a data am berfformiad twristiaeth i mewn yn cynnwys y dirwedd twristiaeth gystadleuol, tueddiadau a phwysigrwydd sectorau marchnad gwahanol. [www.visitbritain.org/inbound-research-insights](http://www.visitbritain.org/inbound-research-insights)